# Casgliad Trin a Thrafod Castell Dinbych

## CA2
Hanes a Llythrennedd




Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cyflwyniad

Nod y pecyn hwn yw helpu athrawon i gynnal ymweliadau hunan-dywys mewn ffordd greadigol, hyderus a llawn dychymyg. Mae'r gweithgareddau a awgrymir yn hyblyg a gellir eu cynnal mewn nifer o ffyrdd. Anogwn athrawon i ddewis ac addasu'r deunydd er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y pwnc a'r grŵp blwyddyn.

## Trefnu ymweliad

Wyddech chi fod ymweliadau hunan-dywys â safleoedd Cadw am ddim i grwpiau addysg sy'n mynychu sefydliadau addysg yn yr Undeb Ewropeaidd?

I drefnu eich ymweliad am ddim, dilynwch y camau syml hyn:

- Trefnwch eich ymweliad o leiaf 5 diwrnod gwaith o flaen llaw.
- Ffoniwch y safle i holi a yw ar gael ar y dyddiad yr hoffech ymweld.
- Unwaith y byddwch wedi cytuno ar ddyddiad ac amser gyda'r safle, llenwch y ffurflen archebu ar-lein www.cadw.cymru.gov.uk/learning


Rydym hefyd yn cynnig gweithgareddau addysg rhyngweithiol sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm mewn rhai safleoedd.

## Iechyd a Diogelwch

Mae athrawon ac arweinwyr grŵp yn gyfrifol am wneud asesiad risg cyn yr ymweliad, yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan awdurdodau addysg lleol. Rydym yn cynnig ymweliadau ymgyfarwyddo am ddim i athrawon i'w galluogi i ysgrifennu'r asesiadau risg a chynllunio gweithgareddau cyn dod â grŵp i'r safle. Mae'r tudalennau dysgu ar wefan Cadw yn cynnig cyngor ar gynllunio eich ymweliad a gwybodaeth benodol am y safle.







WG22271 © Hawlfraint y Goron / Crown Copyright 2014

1. Edrychwch ar bob gwrthrych yn y casgliad a llenwch y blychau isod.

| **Gwrthrych** | **Lliw** | **Defnydd** (o beth mae wedi'i wneud) |
| --- | --- | --- |
| Hebog | | |
| Maneg heboga<br>a chwfl hebog | | |
| Agoriadau'r Castell | | |
| Jygiau | | |

2. 2. Mae pob gwrthrych yn 'enw' – sef y peth rydyn ni'n siarad amdano.

Yn y gweithgarwch blaenorol, rydych chi wedi nodi lliw y gwrthrych ac o beth y cafodd ei wneud. Roedd hynny'n helpu i ddisgrifio'r gwrthrych.

Wrth ddisgrifio rhywbeth, rydyn ni'n defnyddio 'ansoddeiriau'.

Mae'r enghreifftiau yn cynnwys: sgleiniog, caled, meddal, garw a llyfn.

Llenwch y blychau isod â'ch ansoddeiriau chi ar gyfer pob enw.

| **Enw** | **Ansoddair** |
| --- | --- |
| Hebog | |
| Maneg heboga<br>a chwfl hebog | |
| Agoriadau'r Castell | |
| Jygiau | |

3. Awgrymwch i ba le neu ba stafell yn y castell mae'r gwrthrych yn perthyn. Pam rydych chi'n credu hynny?

| Gwrthrych | Ble rydw i'n byw? | Pam? |
|---|---|---|
| Hebog | | |
| Maneg heboga a chwfl hebog | | |
| Agoriadau'r Castell | | |
| Jygiau | | |

4. Yn y gweithgarwch diwethaf, buoch yn esbonio pam roeddech chi'n credu bod y gwrthrychau yn cael eu cadw mewn lle penodol yn y castell. Er mwyn gwneud hynny, mae'n debyg eich bod chi wedi bod yn ystyried at beth roedd y gwrthrychau'n cael eu defnyddio.

   'Berf' yw'r enw am air 'gwneud'.

   Mae'r enghreifftiau yn cynnwys: darllen, cerdded, mwynhau, ymolchi, yfed.

   Llenwch y blychau isod â'ch berfau chi, i ddisgrifio at beth roedd pob un o'r enwau yn cael eu defnyddio:

| Object | Verb |
|---|---|
| Hebog | |
| Maneg heboga a chwfl hebog | |
| Agoriadau'r Castell | |
| Jygiau | |

5. Oes gennyn ni bethau modern i'w defnyddio yn lle'r eitemau yma?

| Hen Wrthrych | Eitem Fodern |
|---|---|
| Hebog | |
| Maneg heboga a chwfl hebog | |
| Agoriadau'r Castell | |
| Jygiau | |

6. Roedd llawer o bobl yn byw yng Nghastell Dinbych a'r cyffiniau, gan gynnwys pobl gyfoethog, fel yr Arglwydd, a phobl dlawd, oedd o bosib yn gweithio yn y castell.

I bwy roedd yr eitemau yma yn perthyn, yn eich barn chi, a pham?

| Gwrthrych | Cyfoethog neu Dlawd? | Pam? |
|---|---|---|
| Hebog | | |
| Maneg heboga a chwfl hebog | | |
| Agoriadau'r Castell | | |
| Jygiau | | |

7. Pa eitem yw'ch ffefryn chi? Tynnwch lun o'ch hoff eitem ac ysgrifennwch baragraff i ddweud pam rydych chi wedi'i dewis.

Dyma fy hoff eitem i oherwydd…

8. Mae archaeolegwyr wedi dod o hyd i lawer o wrthrychau yng Nghastell Dinbych wrth gloddio yno. Mae ambell un o'r gwrthrychau hyn ar gael i'w gweld yn y cwpwrdd arddangos.

Gan ddefnyddio'r blychau isod, llenwch unrhyw wybodaeth am y gwrthrychau y gallwch ei chasglu.

| Gwrthrych | Lliw | Dewiswch ansoddair i ddisgrifio'r gwrthrych | Dewiswch ferf i ddweud at beth roedd yr eitem yn cael ei defnyddio | Ble yn y castell roedd yr eitem yn cael ei chadw? | Oedd yr eitem yn perthyn i rywun cyfoethog neu dlawd? | Eitem fodern yn lle'r hen eitem |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |